# LEFEL 2 GOFAL, CHWARAE, DYSGU A DATBLYGIAD PLANT: CRAIDD

## Pam dewis Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd?

Mae'r cymhwyster hwn ar gyfer dysgwyr ôl-16 yng Nghymru, sy'n gweithio, neu sydd am weithio, mewn lleoliadau gofal plant wedi'u rheoleiddio gyda theuluoedd a phlant o dan 8 oed a/neu wasanaethau plant y GIG ar gyfer y rhai sy'n gweithio gyda theuluoedd a phlant 0-19 oed. Mae hyn yn cynnwys lleoliadau iechyd plant

## Beth fyddaf yn ei astudio?

Mae'r cymhwyster yn ymdrin â gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol o'r Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan newydd ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, ac mae'n adlewyrchu amrywiaeth o wahanol rolau ac oedrannau.

Mae'r cynnwys yn ymdrin â:

- egwyddorion a gwerthoedd gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant
- iechyd, llesiant, dysgu a datblygiad
- ymarfer proffesiynol fel gweithiwr blynyddoedd cynnar a gofal plant
- diogelu plant
- iechyd a diogelwch yn y maes gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant

Mae disgwyl i ddysgwyr fod wedi cwblhau'r cymhwyster hwn cyn neu ochr yn ochr â chymwysterau ymarfer lefel 2 a 3 yn y maes Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant.

www.dysguiechydagofal.cymru

# LEFEL 2 GOFAL, CHWARAE, DYSGU A DATBLYGIAD PLANT: CRAIDD

## Pa sgiliau fyddaf yn eu datblygu?

Mae cwblhau'r cymhwyster hwn yn galluogi dysgwyr i:

- feithrin eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r egwyddorion a'r gwerthoedd craidd sy'n sail i ymarfer gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant
- meithrin eu gwybodaeth a dealltwriaeth o ffyrdd o weithio yn y sectorau gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant
- meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth sy'n llywio ymarfer effeithiol yn y maes gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant
- bod â gwybodaeth a dealltwriaeth sy'n greiddiol i'w cefnogi wrth symud ymlaen i astudio ymhellach neu i gael gwaith yn y maes gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.

## Sut byddaf yn cael fy asesu?

**Caiff y cymhwyster ei asesu drwy asesiad allanol. Rhaid i ymgeiswyr gwblhau'r canlynol yn llwyddiannus:**

- **un prawf dewis lluosog i'w osod a'i farcio'n allanol.**

## Gyrfaoedd gyda Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant:

Mae'r cymhwyster hwn yn cefnogi dysgwyr i symud ymlaen i ennill cymwysterau pellach gan gynnwys y cymwysterau canlynol sy'n rhan o'r gyfres o gymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant i Gymru.

- Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer
- Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori
- Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer
- Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori
- Cyflogaeth